OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2016 Rhif 100 (Cy. 48)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) (Diwygio) 2016

Gwnaed - - - -	*28 Ionawr 2016*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*2 Chwefror 2016*
Yn dod i rym - -	*15 Mawrth 2016*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 18(4), 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) a pharagraff 4 o Atodlen 3 iddi.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) (Diwygio) 2016.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 15 Mawrth 2016.

Diwygio Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009

2.—(1) Mae Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 5 (cyfarwyddwyr anweithredol), yn lle paragraff (1) rhodder—

"(1) Bydd cyfarwyddwyr anweithredol yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys—

(a) person sy'n ddeiliad swydd sy'n ymwneud ag iechyd mewn prifysgol;

(b) person a chanddo brofiad o awdurdodau lleol yng Nghymru;

(c) person sy'n un o gyflogeion neu'n un o aelodau corff sector gwirfoddol a chanddo brofiad o'r fath gyrff yng Nghymru."

(3) Hepgorer paragraff (2).

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 2009/1385 (Cy. 141).